

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn
Neuadd Bentref Llanelltyd
Nos Fawrth, Mawrth 13, 2018 am 7.30 o'r gloch.**

Presennol: Cyngorwyr: Geraint Rowlands (Cadeirydd), John Hughes, Simon Evans, Llinos Williams, Elfed ap Gomer, Paul Williams. Hefyd Henry M. Edwards.

1. Ymddiheuriadau: Gareth Ellis, Peredur Jenkins, Carwyn Evans.

2. Datgan diddordeb:

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Chwefror 13, 2018

Wedi cywiro '£1,4000' yn Eitem 5.b. i ddarllen '£1,400', cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

4. Materion yn codi o'r cofnodion Chwefror 13, 2018

Eitem 8.dd. Llythyr ateb (16/2/2018) yn rhoi gwybod mae gorchymyn etholiadol diweddaraf ar gyfer Gwynedd yn cynnwys yr enw Saesneg Brithdir and Llanfachreth/Ganllwyd/Llanelltyd a'r enw Cymraeg Brithdir a Llanfachreth/Y Ganllwyd/Llanelltud ar gyfer y ward etholiadol. Mae hyn hefyd yn wir ar gyfer Cymuned Llanelltyd, sydd â'r enw Saesneg 'Community of Llanelltyd' a'r enw Cymraeg 'Cymuned Llanelltud'. Felly, sillafiad cyfreithiol y gymuned ac, yn ei thro, y ward etholiadol, yw 'Llanelltyd' yn Saesneg a 'Llanelltud' yn y Gymraeg.

O ran cynigion drafft y Comisiwn, rydym wedi cynnig un enw ar gyfer pob ward etholiadol, yn seiliedig ar yr enwau Cymraeg presennol sydd ar gael. Felly, rydym wedi cynnig 'Brithdir, Llanfachreth, Y Ganllwyd a Llanelltud'.

Bydd y Comisiwn yn ystyried safbwyntiau'r Cyngor, ynghyd â'r cynrychiolaethau eraill a dderbynnir, wrth iddo baratoi ei Gynigion Terfynol.

Eitem 8.i. Rhoddwyd gwybod i Dŵr Cymru bod dŵr yn gollwng o 'manhole' wrth Toiledau Bontddu. 16/2/2018. Derbyniwyd galwad ffôn oddi wrth Dŵr Cymru yn rhoi gwybod maent wedi archwilio'r broblem ac wedi gwneud iawn y diffyg.

Eitem 5.a. Anfonwyd llythyr (23/2/2018) i Uned Archwilio Mewnol, Cyngor Gwynedd i gadarnhau ein bod yn penodi nhw fel ein Harchwilydd Mewnol. Derbyniwyd y llythyr (23/2/2018) yn ôl wedi ei arwyddo gan Swyddog o'r Uned. Mae'n debyg bydd y ffi oddeutu £100.

Eitem 8.1. Llythyr (27/10/2018) oddi wrth Llywodraeth Cymru, trwy law Un Llais Cymru. Amgáu mae Adroddiad Draft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - Chwefror 2018. Mae'r adroddiad yn cynnwys cynigion a fyddai'n dod i rym ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/2019. Mae'r adroddiad ar gael ar wefan <http://gov.wales/irpwsb/home/publication-reports/58592459/?skip=1&lang=cy>

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION MAWRTH 13, 2018

Adran 13 sy'n berthnasol i gynghorau tref a chymuned.

Penderfynwyd trafod y mater yn ein cyfarfod nesaf.

5. Materion Ariannol

a. Bil (15/02/2018) am £116.67 oddi wrth Dŵr Cymru at tâl gwasanaethu Toiledau Cyhoeddus Bontddu. Mae'n cael ei dalu drwy DD. Llynedd roedd y taliad yn £147.94.

Penderfynwyd talu'r bil.

b. Llythyr (23/2/2018) oddi wrth HSBC yn rhoi gwybod bydd ein cyfrif yn newid o 'HSBC Bank plc' i 'HSBC UK bank plc' ar 1/07/2018.

ch. Balans yn y banc ar 28 Chwefror, 2018: £8,510.62

6. Mynwent Llanelltyd

a. Derbyniwyd siec (23/2/2018) am £85.00 oddi wrth Mr Tony Hodgson at ail-osod beddfaen i'r diweddar Freda Smalley a Paul Leslery Smalley.

b. Derbyniwyd siec (28/2/2018) am £85.00 oddi wrth I.B. Williams a'i Fab Cyf at ail-osod beddfaen ar y diweddar John Kenneth Williams.

c. Llythyr (9/3/2018) oddi wrth Gwasanaeth Rheoli Gwastraff a Strydoedd, Cyngor Gwynedd yn ymwneud â Chasglu Gwastraff Masnachol o'r fynwent yn 2018/2019. Os am wasanaeth fel y llynedd, bydd y casgliad yn wythnosol gydag un bin olwyn 240ltr drwy'r flwyddyn, y ffi i'w dalu yw £326.00 (y swm llynedd oedd £307.00). Bydd anfoneb am y swm yn cael ei anfon inni.

Penderfynwyd derbyn y gwasanaeth.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Nid oedd adroddiad.

8. Gohebiaeth

a. Llythyr (15/2/2018) oddi wrth Cyngor ar Bopeth Gwynedd yn diolch am ein rhodd o £100.

b. (Llythyr 20/2/2018) oddi wrth Gwyl Cerdd Dant Blaenau Ffestiniog a'r Fro 2018 yn diolch am ein rhodd..

c. Llythyr (15/2/2018) oddi wrth Elusen Ambiwlans Cymru yn diolch am ein rhodd o £100.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION MAWRTH 13, 2018

ch. Llythyr (21/2/2018) oddi wrth Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd yn diolch am ein rhodd o £50.

d. Llythyr (22/2/2018) oddi wrth Neuadd Bentref Bontddu yn dolch am ein rhodd o £450.

dd. Llythyr (27/2/2018) oddi wrth Neuadd Bentref Llanelltyd yn dolch am ein rhodd o £450.

e. Rhoddwyd gwybod (27/2/2018) i Pryffyrdd mae angen llenwi biniau halen sydd ar y rhiw uwchben Pont Cwm Mynach ac wrth giosg Taicynhaeaf.

f. Llythyr (28/2/2018) oddi wrth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd gwaith tyllu a gosod colofnau golau stryd yn cael ei wneud ar ffordd A496 yn Bontddu.

ff. Llythyr (1/3/2018) oddi wrth Cylch Meithrin Dolgellau yn dolch am ein rhodd o £100.

g. Llythyr (10/3/2018) oddi wrth Yr Elusen Amaethyddol Frenhinol (RABI Meirionnydd). Maent angen cymorth ariannol. Mae ganddynt Gyngerdd Mawreddog ar nos Sadwrn, Mehefin 16, 2018 yn Ysgol Bro Idris, Dolgellau.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 2019 Cais am Nawdd.

9. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

a. Anfonodd Cyngor Cymuned Brithdir a Llanfachreth lythyr (27/2/2018) i Priffyrdd, gyda chais i lenwi bin halen yn rhoi gwybod nid yw'r drefn i gael y Clerc i roi gwybod am yr angen i lenwi biniau yn gweithio.

Derbyniwyd llythyr ateb (1/3/2018) yn rhoi gwybod mae cais i lenwi biniau yn gorfod cael ei wneud gan y Cyngor Cymuned er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r cais a'r gost.

10. Materion Brys

a. Penderfynwyd rhoi gwybod i Peredur Jenkins iddo wneud ymoliadau gyda Mr Ap Trefor Iwan, Gwasanaeth Trafnidiaeth, Cyngor Gwynedd i gael gwybod beth yw'r diweddaraf ynglŷn cael llinellau melyn i wahardd parcio wrth gyffordd sydd wrth Pont Wnin.

b. Penderfynwyd rhoi gwybod i Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd mae angen:

1. clirio gordyfiant sydd ar ochr ffordd A496 wrth Bontddu Hall.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION MAWRTH 13, 2018

2. symud yr arwydd 'Dim marciau ffordd' sydd ar gyffordd A470 /A496 Llanelltyd.

3. llenwi tyllau sydd ar ffordd wrth Nant y Garreg, Taicynhaeaf.

c. . Penderfynwyd gwneud ymoliadau gyda Heddlu Gogledd Cymru i gael gwybod pam bod cerbyd Gan Bwyll yn gwylio ffordd A496 yn Bontddu ac nid wrth yr Ysgol Llanelltyd.
